**Rhif: WG48246**

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Trwyddedu Sefydliadau Lles, Gweithgareddau ac Arddangosfeydd Anifeiliaid

Ymgynghoriad ar ddatblygu Model Cenedlaethol ar gyfer rheoleiddio lles anifeiliaid

Dyddiad cyhoeddi: 08 Rhagfyr 2023

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 01 Mawrth 2024

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English

OGL © Hawlfraint y Goron xxxx

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â chynigion i drwyddedu sefydliadau lles, gweithgareddau ac arddangosfeydd anifeiliaid ac mae'n rhan o'r cam cyntaf ar gyfer datblygu Model Cenedlaethol ar gyfer rheoleiddio lles anifeiliaid. Cynhaliwyd galwad wedi'i thargedu am dystiolaeth yn gynharach eleni, gan ofyn i Awdurdodau Lleol, y Trydydd Sector ac asiantaethau eraill sydd â diddordeb, nodi bylchau y maen nhw wedi'u gweld yn y ddeddfwriaeth bresennol. Rhagwelir y byddai'r Model Cenedlaethol yn estyn y swyddogaeth drwyddedu i gynnwys gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag anifeiliaid ac sydd ar hyn o bryd yn ddi-drwydded a diweddaru'r fframwaith ar gyfer trwyddedu gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig ag anifeiliaid.

Rydym yn awr yn gofyn am farn y cyhoedd am hyn a byddem hefyd yn croesawu unrhyw dystiolaeth bellach i gefnogi mwy o reoleiddio. Ar ddiwedd y broses, byddwn yn ystyried yr holl ymatebion a fydd wedi dod i law gan y cyhoedd, ynghyd â'r rhai o'r alwad gyntaf am dystiolaeth, i bennu'n blaenoriaethau o ran trwyddedu ar gyfer y dyfodol.

Mae adrannau 1, 2 a 3 o'r ymgynghoriad hwn yn rhoi cefndir y sefyllfa bresennol. Bydd Adran 4 yn rhoi gwybodaeth gefndirol i chi am y cwestiynau y byddwn yn eu gofyn a pham. Darllenwch yr adran hon yn ofalus cyn ateb y cwestiynau.

## Sut i ymateb

Gellir cyflwyno ymatebion drwy e-bost, y post neu ar ffurflen e-bost ar wefan Llywodraeth Cymru yn [www.gov.wales/consultations](http://www.gov.wales/consultations)

Dylid anfon ymatebion drwy e-bost/post i'r cyfeiriad isod, i gyrraedd erbyn 01 03 2024 fan hwyraf. Sicrhewch eich bod yn datgan "Trwyddedu Sefydliadau, Gweithgareddau ac Arddangosfeydd Lles Anifeiliaid" yn y blwch pwnc.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Tîm Lles Anifeiliaid
Swyddfa'r Prif Swyddog Meddygol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: AnimalWelfareWales@gov.wales

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd: [Licensing of animal welfare establishments, activities and exhibits]

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ac ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithlon dros brosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru. (Erthygl 6(1)(e))

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol, Yn achos ymgynghoriadau ar y cyd, mae'n bosibl y bydd hyn hefyd yn cynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae amodau a thelerau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb atom. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a'i bod yn bosibl y bydd Llywodraeth Cymru o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gadwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'r ffordd mae'n cael ei defnyddio, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost: swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
Rhif ffôn: 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

# Cynnwys

Adran 1 – Cyflwyniad ……………………………………………………………………………………………………………………….6

Adran 2 - Pa reoliadau sydd gennym sy'n ymwneud â'r pynciau yn yr ymgynghoriad hwn?...........8

Adran 3 - Diffiniadau ……………………………………………………………………………………………………………………..11

Adran 4 - Ein sefyllfa ar hyn o bryd? ……………………………………………………………………………………………13

Adran 5 - Tabl Trosolwg ……………………………………………………………………………………………………………..19

Adran 5 – Mwy am y cwestiynau y byddwn yn eu gofyn ………..........................................…………….22

## Adran 1 – Cyflwyniad

Mae Lles Anifeiliaid yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, a'n huchelgais yw bod pob anifail yng Nghymru yn byw bywyd da. Adlewyrchir yr uchelgais hon yn y Rhaglen Lywodraethu(PfG), sydd â phedwar ymrwymiad sy'n ymwneud â lles anifeiliaid, gan rychwantu anifeiliaid fferm, anifeiliaid anwes ac anifeiliaid eraill a gedwir. Mae ein Cynllun Lles Anifeiliaid Cymru 2021-26 (AWPW) yn nodi sut y byddwn yn gwireddu'r ymrwymiadau hyn ar draws tymor y llywodraeth.

At ddibenion yr ymgynghoriad hwn ein ffocws yw'r ymrwymiad cyntaf, sef i 'Ddatblygu Model Cenedlaethol ar gyfer rheoleiddio lles anifeiliaid, gan gyflwyno cofrestr ar gyfer sefydliadau lles anifeiliaid, bridwyr masnachol anifeiliaid anwes neu anifeiliaid ar gyfer saethu, ac arddangosfeydd anifeiliaid.'

Fel y byddwn yn ei nodi yn yr adrannau isod, er bod Deddf Lles Anifeiliaid 2006 yn rhoi rhywfaint o amddiffyniad cyffredinol i bob anifail sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau yn yr ymgynghoriad hwn neu yr effeithir arnynt ganddynt, mae llawer o'r rheoliadau sy'n ymdrin â gweithgareddau penodol yn ddegawdau oed neu nid ydynt eto'n bodoli.

Mae ymchwil yn dangos ein bod yn genedl sy'n hoff o anifeiliaid ac mae lles anifeiliaid yn mynnu lle uwch ar agenda gyhoeddus Cymru nag unrhyw wlad arall yn y DU, gyda 97% o'r ymatebwyr yn nodi ei fod yn bwnc pwysig yn arolwg Born Free ym mis Rhagfyr 2022.

Rydym yn cydnabod bod y cyhoedd yn disgwyl i safonau lles anifeiliaid gael eu gorfodi'n gadarn ym mhob gweithgaredd yng Nghymru ac nad yw rheoleiddio anhyblyg, hen ffasiwn neu nad yw'n bod yn cyfrannu at gyflawni hyn. Er mwyn cadw i fyny ag arferion y dydd, y mathau newydd o fusnesau sy'n gysylltiedig ag anifeiliaid a safonau newydd o ran arfer da mewn lles anifeiliaid, mae'n hanfodol ein bod yn ailedrych ar y drefn reoleiddio o bryd i'w gilydd, i sicrhau ei bod yn ateb y diben, i'w diweddaru yn ôl yr angen ac i gau unrhyw fylchau y cymerir mantais arnynt.

Byddai Model Cenedlaethol, a fyddai'n cyflwyno trefn drwyddedu ar gyfer meysydd nad ydynt yn cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd a chryfhau deddfwriaeth bresennol sydd wedi dyddio neu nad yw'n unffurf, yn sbarduno gwella safonau cadw ac yn caniatáu gorfodaeth lymach ar safonau.

### Cwmpas daearyddol

Mae lles anifeiliaid yn fater datganoledig ac mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud yn unig â'r cynnig i osod rheoliadau ar sefydliadau lles, arddangosfeydd a gweithgareddau anifeiliaid yng Nghymru. Dylid gofyn i'r Llywodraeth briodol am ragor o wybodaeth am reoleiddio yn rhannau eraill o'r DU. Mae gan Loegr a'r Alban eu trefniadau trwyddedu eu hunain.

## Cynulleidfa

Mae'r ymgynghoriad hwn yn agored i bawb. Hoffai Llywodraeth Cymru glywed yn arbennig gan unrhyw un sydd â diddordeb yn y maes hwn neu yr effeithir arnynt gan y maes hwn, megis: llochesi a chanolfannau achub anifeiliaid, mudiadau lles anifeiliaid, awdurdodau lleol, gweithwyr milfeddygol, academyddion, a gweinyddwyr/perchnogion gweithgareddau, arddangosfeydd a sefydliadau anifeiliaid.

## Hyd

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 08 12 2023.

Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 01 03 2024.

Dyna gyfnod ymgynghori cyhoeddus llawn o 12 wythnos.

## Proses Ymgynghori Llywodraeth Cymru

Mae ymgynghori yn rhan hollbwysig o'r broses o lunio polisïau. Mae'n rhoi cyfle i ni gasglu tystiolaeth, ystyried eich barn a defnyddio arbenigedd mewn maes gwaith, gan ein helpu i ddatblygu'r camau nesaf.

Bydd yr ymatebion a ddaw i law, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth a gwybodaeth arall a all fod ar gael, yn cael eu dadansoddi a'u defnyddio i'n helpu i wneud penderfyniadau. Ar ôl cau'r ymgynghoriad ac ar ôl cymryd amser i ystyried yr ymatebion, byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn crynhoi canlyniadau'r ymgynghoriad ac yn nodi ffordd ymlaen.

## Adran 2 - Pa reoliadau sydd gennym sy'n ymwneud â'r pynciau yn yr ymgynghoriad hwn?

### Deddf Lles Anifeiliaid 2006

Mae Deddf Lles Anifeiliaid 2006 ("Deddf 2006") yn rhoi dyletswydd gofal ar unrhyw un sy'n gyfrifol am anifail, i ddiogelu ei les. Rhaid i unrhyw berson sy'n gyfrifol am anifail, boed yn barhaol neu dros dro, gymryd camau rhesymol i sicrhau bod anghenion yr anifail yn cael eu diwallu bob amser. Mae Deddf 2006 yn ymgorffori'r pum angen lles y mae gan bob anifail hawl iddynt, sef:

- yr angen am amgylchedd addas – lle i fyw
- yr angen am ddeiet addas
- yr angen i allu dilyn patrymau ymddygiad naturiol
- yr angen i gael bod gydag anifeiliaid eraill neu ar wahân iddynt
- yr angen i'w ddiogelu rhag poen, dioddefaint, anaf ac afiechyd

Mae adran 13(7) o Ddeddf 2006 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyflwyno cynlluniau trwyddedu sy'n hyrwyddo lles anifeiliaid, drwy Reoliadau.

### Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021

Daeth Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021 (LAIA) i rym ar 10 Medi 2021. Gwnaed y Rheoliadau o dan bwerau yn Neddf Lles Anifeiliaid 2006 ac maent yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n dymuno cynnal y gweithgaredd a restrir isod fel rhan o'i fusnes gael trwydded gan yr awdurdod lleol lle y mae ei safle. Mae'r trefniadau trwyddedu ar hyn o bryd yn cwmpasu:

- Gwerthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes yng Nghymru, gan gynnwys gwahardd gwerthu cŵn a chathod bach trwy drydydd parti

Er mwyn cael trwydded o dan y Rheoliadau hyn, mae angen i fusnes fodloni'r holl safonau lles gofynnol.

### Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014

Mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 i bob pwrpas yn dirymu ac yn disodli Deddf Bridio Cŵn 1973 yng Nghymru. Cyflwynodd y rheoliadau feini prawf llymach ar gyfer sefydliadau bridio

trwyddedig gan bennu cymhareb cynorthwyydd/cŵn llawndwf o un aelod o staff llawn amser fan leiaf i bob 20 ci llawndwf.

### Deddf Sefydliadau Lletya Anifeiliaid 1963

Mae Deddf Sefydliadau Lletya Anifeiliaid 1963 yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau sy'n lletya anifeiliaid fel busnes gael eu trwyddedu gan yr Awdurdod Lleol. Mae'r ddeddf yn diffinio "sefydliadau lletya" fel y safleoedd hynny, gan gynnwys anheddau preifat, lle mae'r busnes yn cynnwys darparu llety i gathod a chŵn pobl eraill. Wrth benderfynu rhoi trwydded, bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried addasrwydd yr amodau (e.e. maint y lle, goleuni, bwyd, dŵr, rheoli clefydau, ac ati) sy'n bresennol yn y sefydliad preswyl.

Gwelwyd bwlch yn Neddf 1963 yn yr ystyr nad oedd angen trwydded ar hyfforddwyr cŵn a thwtwyr cŵn sydd hefyd yn lletya cŵn fel gwasanaeth ychwanegol.

### Deddf Sefydliadau Marchogaeth 1964 a 1970

O dan Ddeddf Sefydliadau Marchogaeth 1964 a 1970, mae gofyn i sefydliadau marchogaeth gael eu trwyddedu gan Awdurdodau Lleol.

Mae'r term 'sefydliad marchogaeth' yn golygu busnes sy'n "cadw ceffylau i'w rhentu i'w marchogaeth, neu i'w defnyddio i roi gwersi marchogaeth am dâl, neu'r ddau".

Diffinnir "ceffyl" fel anifail sy'n cynnwys caseg, gelding, merlyn, ebol, eboles neu farch, a hefyd asyn, asen neu ful.

Yn ogystal â cheffylau a merlod mewn ysgolion marchogaeth traddodiadol, mae angen trwydded hefyd ar gyfer ceffylau a merlod merlota, cyfeiriannu a cherdded llwybrau.

Mae angen trwydded hefyd ar gyfer busnesau merlod ac asynnod traeth, gwersi polo (ond nid os bydd y disgybl yn defnyddio’i geffyl ei hun) a llogi ceffylau ar gyfer hacio a hela.

### Deddf Anifeiliaid Perfformio (Rheoleiddio) 1925

Mae Deddf Anifeiliaid Perfformio (Rheoleiddio) 1925 yn ei gwneud yn ofynnol i bawb sy'n arddangos neu'n hyfforddi anifeiliaid ar gyfer perfformiadau cyhoeddus, gofrestru gyda'u hawdurdod lleol. Rhoddir tystysgrif gofrestru i bobl sydd wedi cofrestru.

Nid yw'r Ddeddf yn delio ag anifeiliaid sy'n cael eu hyfforddi i wneud gwaith milwrol, plismona, amaethyddol neu chwaraeon cyfreithlon, nac

anifeiliaid sy'n cael eu harddangos mewn arddangosiadau neu ddigwyddiadau tebyg.

## Adran 3 – Diffiniadau

Rydym yn cydnabod y gall terminoleg yn y maes hwn fod yn dechnegol. Isod mae rhestr o dermau a diffiniadau defnyddiol, a fydd, gobeithio, yn eich helpu i ddeall ac i roi ymatebion ystyrlon a gwybodus.

- **Canolfan Achub Anifeiliaid (Animal Rescues) –** fel arfer yn darparu lloches, gofal a gofal adsefydlu tymor byr gyda'r nod o ddod o hyd i gartref hirdymor addas i anifail.
- **Lloches Anifeiliaid (Animal Sanctuaries) –** fel arfer yn darparu cysgod, gofal a gofal adsefydlu parhaol, hirdymor neu am oes i anifail, fel arfer heb fwriad i'w ailgartrefu.
- **Cynllun Lles Anifeiliaid Cymru** – Y ddogfen sy'n arwain ein gwaith a'n cynllun gweithredu. Mae'n disgrifio'n blaenoriaethau ar gyfer 2021-2026 ac yn nodi sut rydym yn bwriadu adeiladu ar y gwaith sydd wedi'i wneud ers datganoli pwerau yn 2006.
- **Anifeiliaid anwes**– Anifail sydd wedi'i ddomestigeiddio sy'n cael ei gadw fel anifail anwes. Y mwyaf cyffredin yw cŵn a chathod ond cynhwysir rhywogaethau eraill hefyd.
- **Datganoli** – Y term a ddefnyddir i ddisgrifio'r broses o drosglwyddo pwerau i wneud deddfau a phenderfyniadau o'r canol (San Steffan) i wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig.
- **Pwerau Datganoledig** – Pwerau sydd wedi'u trosglwyddo o Lywodraeth y DU i seneddau a llywodraethau pob gwlad. Sef yng Nghymru, i Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru. Y pwerau hyn sy'n rhoi'r gallu i Lywodraethau Datganoledig greu deddfau a gwneud penderfyniadau mewn meysydd penodol. Er enghraifft, mae iechyd a lles anifeiliaid yn bynciau sydd wedi'u datganoli i Gymru.
- **Ceffylau** – Defnyddir y gair ceffyl i gynnwys pob math o geffyl, merlyn ac asyn, a hybridau fel mulod.
- **Arddangosfa** - Arddangos fel rhan o waith busnes at ddibenion addysgol neu adloniant (a) i unrhyw gynulleidfa sy'n bresennol, neu (b) trwy recordio delweddau gweledol ohonynt gan unrhyw fath o dechnoleg sy'n galluogi arddangos delweddau o'r fath.
- **Maethu** – Lleoli anifail yng ngofal cartref dros dro. Mae gwirfoddolwyr maethu yn aml yn cael eu defnyddio gan sefydliadau achub ac ailgartrefu fel ffordd ychwanegol o gymryd anifeiliaid a gofalu amdanynt.
- **Hwsmonaeth** - gofalu am anifeiliaid a'u bridio.
- **O fewn cwmpas** – Dan ystyriaeth/yn berthnasol i'r drafodaeth bresennol.

- **Trwyddedu** – Pan fydd rhywun yn gofyn am gael ei gymeradwyo i gynnal gweithgaredd ac yn ymrwymo i rai amodau a chyfyngiadau. Efallai y bydd angen i ymgeisydd am drwydded dalu ffi a phrofi ei allu mewn rhyw ffordd er mwyn cael trwydded.
- **Awdurdod Lleol** – cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru.
- **Model Cenedlaethol** – System ar gyfer trwyddedu a rheoleiddio sefydliadau a busnesau sy'n ymdrin ag anifeiliaid a gedwir, er mwyn sicrhau cysondeb o ran ymagwedd a bod gofynion rheoleiddio yn cael eu cynnal mewn ffordd gadarn a chyson ledled Cymru.
- **Anifeiliaid perfformio** – Unrhyw anifail sy'n cael ei gymryd o amgylchedd ei gartref neu ei grŵp cymdeithasol arferol ac sy'n cael ei hyfforddi/ei roi mewn sefyllfa i ymddwyn mewn ffordd benodol ar gyfer cynhyrchiad.
- **Rhaglen Lywodraethu** – Dogfen sy'n nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer tymor y Senedd. Mae'n rhychwantu pob maes polisi gan gynnwys lles anifeiliaid.
- **Cofrestru** – Ffordd i roi gwybod i'r awdurdodau'ch bod yn bwriadu gwneud rhywbeth. Codir ffi fel arfer. O dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, gall cofrestriad bara un i dair blynedd.
- **Canolfan Adsefydlu –** Cyfleuster sydd fel arfer yn cymryd anifeiliaid gwyllt sâl, clwyfedig neu amddifad i'w trin ac i ofalu amdanynt, gyda'r nod o'u rhyddhau yn ôl i'w hamgylchedd naturiol. Gall y cyfleusterau hyn weithredu ar sail broffesiynol neu fod yn gysylltiedig â mudiad neu elusen, neu gallant fod yn fentrau mwy anffurfiol, sy'n gweithredu o gartref unigolyn preifat.
- **Diddymu deddf -** i newid neu ddileu cyfraith neu ddeddf seneddol.
- **Pwerau a Ddargedwir** – Fel y nodyn am 'Bwerau Datganoledig', mae gan Gymru y pŵer i wneud penderfyniadau a chreu deddfau mewn sawl maes penodol. Nid yw pob maes wedi'i ddatganoli fodd bynnag, ac mae Senedd y DU a Llywodraeth y DU yn cadw rhai pwerau mewn meysydd, gan gynnwys plismona a chyfiawnder. Mae'r rhain yn cael eu galw'n bwerau a ddargedwir.
- **Anifail gwyllt/egsotig** – Unrhyw anifail sydd ddim fel arfer yn cael ei gadw fel anifail domestig ym Mhrydain.

## Adran 4 – Ein sefyllfa ar hyn o bryd?

### Ymgynghoriadau Blaenorol 2017- 2022

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus yn 2017, cyhoeddodd y Gweinidog ei bwriad i gyflwyno cynllun ar gyfer trwyddedu Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid yng Nghymru.

Fodd bynnag, ar ôl ystyried y mater yn fanylach, penderfynwyd trwy gyfyngu'r cynllun i arddangosfeydd teithiol, na fyddai *unrhyw* graffu ar anifeiliaid mewn rhai arddangosfeydd sefydlog. Barnwyd bod yr anghysondeb hwn yn annerbyniol. Felly ehangwyd cwmpas y cynllun trwyddedu i gynnwys *pob* anifail sy'n cael ei arddangos ac sy'n bodloni meini prawf penodol, i'w diffinio yn y gyfraith.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn 2019 ar Reoliadau drafft a'r Canllawiau cysylltiedig; mae crynodeb o'r ymatebion ar gael yn Arddangosfeydd anifeiliaid.

Fe wnaeth rhai o'r ymatebion a gafwyd i ymgynghoriad 2019 gyflwyno tystiolaeth sy'n awgrymu y dylid ychwanegu gweithgareddau eraill sy'n ymwneud ag anifeiliaid at gwmpas meini prawf trwydded, a'n bwriad oedd cynnal trydydd ymgynghoriad byr ym mis Mawrth 2020. Hynny er mwyn rhoi cyfle i'r sefydliadau sy'n cynnal y gweithgareddau hyn gynnig eu sylwadau ar y Rheoliadau drafft a hefyd i ofyn i'r holl randdeiliaid am eu barn am y diwygiadau a wnaed i'r Rheoliadau a'r Canllawiau yn sgil canlyniadau ymgynghoriad 2019.

Oherwydd pandemig y Coronafeirws ac effaith debygol ei gyfyngiadau ar lawer o randdeiliaid (er enghraifft, rhoi staff ar ffyrlo neu canolbwyntio ar ffyrdd o weithio/gofalu am eu hanifeiliaid yn ystod y cyfnod clo), gwnaed y penderfyniad anodd i ohirio'r ymgynghoriad.

**Cwblhau Galwad wedi'i Thargedu am Dystiolaeth Tachwedd 2022-Chwefror 2023**

Ym mis Tachwedd 2022, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at bob Awdurdod Lleol yng Nghymru, Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru (AWNW), Grŵp Lles Anifeiliaid Anwes Cymru (CAWGW), a Chyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru (DPPW) i ddeall ffeithiau'r sefyllfa ar hyn o bryd, i nodi unrhyw fylchau yn y ddeddfwriaeth ac i nodi'r meysydd nad ydyn nhw'n cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd. Roedd cwmpas yr adolygiad hwn wedi'i gyfyngu i anifeiliaid anwes (gan gynnwys cŵn) ac anifeiliaid eraill a gedwir (er enghraifft adar ysglyfaethus, ceffylau ac anifeiliaid egsotig) yn unig.

Mae adborth yr alwad am dystiolaeth bellach wedi'i gasglu a'i ganfyddiadau yw sail i'r ymgynghoriad hwn.

Roedd yr alwad am dystiolaeth yn gofyn dau gwestiwn, sef:

1. Pa ddeddfwriaeth lles anifeiliaid y mae eich Swyddogion yn gyfrifol am ei gorfodi?

2. Pa broblemau y mae eich Swyddogion Gorfodi Lles Anifeiliaid yn eu hwynebu, o ran y ddeddfwriaeth drwyddedu gyfredol sydd mewn grym a lle nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn rhoi digon o amddiffyniad ar gyfer gweithgaredd anifeiliaid penodol? Rhowch gymaint o dystiolaeth i ategu'ch ateb ag y medrwch.

Nododd ymatebwyr broblemau â'r deddfwriaeth gyfredol a nodwyd hefyd fylchau yn y ddeddfwriaeth y dylid eu llenwi, lle nad oes rheoleiddio ar hyn o bryd. Nodwyd y meysydd canlynol yn gyson fel rhai sydd angen rhagor o reoleiddio.

- Ystyried trwyddedu mentrau masnachol nad ydynt yn cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd fel:
  - Gofal dydd i anifeiliaid anwes, cerdded cŵn, parciau chwarae i gŵn, lletya gartref, cyfleusterau gofalu am anifeiliaid anwes, gwasanaethau twtio cŵn/cathod, gwarchod anifeiliaid anwes yn y cartref, ymddygiadwyr a hyfforddwyr anifeiliaid
  - Sesiynau cwrdd ag anifeiliaid fel therapi anifeiliaid anwes e.e. mynd ag anifeiliaid i ysgolion a chartrefi gofal, mynd â lamas/alpacas am dro, caffis cathod, mentrau cael benthyg anifail, partïon peintio merlod a ioga cŵn.
  - Llochesi a chyfleusterau ailgartrefu ac achub eraill

- Ystyried cyflwyno cynllun ar gyfer trwyddedu arddangosfeydd teithiol o anifeiliaid, gan ehangu cwmpas y ddeddfwriaeth bresennol.
- Ystyried trwyddedu perchnogion a/neu geidwaid neu hyfforddwyr cŵn a ddefnyddir i rasio.

**Bwriad yr ymgynghoriad cyhoeddus**

Rydym nawr yn gofyn am farn y cyhoedd am y bylchau hynny a nodwyd ac i ofyn i chi ystyried potensial trwyddedu'r gweithgareddau canlynol, a nodwyd fel rhan o'r alwad wedi'i thargedu am dystiolaeth:

a) Gofal Dydd i Anifeiliaid Anwes
b) Cerddwyr cŵn
c) Parciau chwarae i gŵn
d) Lletya Gartref (Anifeiliaid Anwes) fel llety cŵn a chathod
e) Cyfleusterau gofalu am anifeiliaid, fel lleoedd i adsefydlu neu ddiogelu anifeiliaid, er enghraifft, ysbytai draenogod
f) Twtio Anifeiliaid Anwes
g) Gwarchodwyr Anifeiliaid Anwes yn eu cartref
h) Hyfforddwyr Anifeiliaid gan gynnwys ymddygiadwyr anifeiliaid, dosbarthiadau hyfforddi a chymdeithasu
i) Canolfannau achub
j) Llochesi Anifeiliaid
k) Canolfannau Ailgartrefu
l) Maethu
m) Cyfleoedd i gwrdd ag anifeiliaid, fel therapi anifeiliaid anwes, caffis cathod, mentrau rhoi benthyg anifail, ioga cŵn bach, mynd â lamas/alpacas am dro, partïon peintio merlod
n) Arddangosfeydd Teithiol a Sefydlog o Anifeiliaid, fel arddangosfeydd heboga, dangos/trin ymlusgiaid ac anifeiliaid egsotig
o) Perchnogion, ceidwaid neu hyfforddwyr cŵn rasio, gan gynnwys milgwn.
p) Stablau Hurio
q) Primatiaid fel anifeiliaid anwes

Byddwn yn gwerthfawrogi hefyd unrhyw dystiolaeth y gallwch ei darparu o blaid trwyddedu'r gweithgareddau uchod. Mae'r ymgynghoriad yn

cynnwys cwestiwn rhydd lle gallwch ychwanegu gweithgareddau nad ydynt wedi'u rhestru uchod a chynnwys tystiolaeth i'w cefnogi.

Rydym yn deall bod gan y cyhoedd ddiddordeb mawr yn lles milgwn rasio. Ynghyd â'r cwestiwn a ddylid trwyddedu perchnogion, ceidwaid neu hyfforddwyr cŵn rasio, mae'r ymgynghoriad yn gofyn hefyd am dystiolaeth i gyfiawnhau neu wrthod ystyried gwaharddiad graddol yn y dyfodol.

Ar ddiwedd y broses, byddwn yn ystyried yr holl ymatebion a fydd wedi dod i law gan y cyhoedd, ynghyd â'r rhai o'r alwad gyntaf am dystiolaeth, i bennu'n blaenoriaethau o ran trwyddedu ar gyfer y dyfodol.

## Rhesymau dros ein Cynigion Trwyddedu

Y rhesymeg dros y cynigion hyn yw gwella a diogelu lles anifeiliaid trwy gyflwyno cynllun trwyddedu statudol a fydd yn gosod safonau gofynnol y bydd yn rhaid i bob deiliad trwydded gydymffurfio â nhw. Os oes trefn drwyddedu eisoes yn bod ond y bernir bod y rheoliadau'n hen, yn wan neu'n anhyblyg, caiff y fframwaith trwyddedu ei ddiweddaru a'i gysoni â'r Model Cenedlaethol ehangach. Heb drefn drwyddedu ddigonol, cyson ac effeithiol, cyfyngir yn fawr ar allu'r Awdurdodau Lleol i orfodi safonau, delio â thramgwyddau a sicrhau bod anghenion lles yn cael eu diwallu.

Bydd trwydded yn sicrhau bod unigolion sy'n cynnig gwasanaethau o'r fath yn:

- cael eu harchwilio'n briodol cyn cael trwydded,
- cael eu harchwilio'n gyfnodol gan yr awdurdod lleol,
- meddu ar brofiad a/neu gymhwyster addas i ddarparu'r gwasanaeth a gynigir,
- gweithredu at safonau statudol diffiniedig,
- atebol pan fydd amodau trwydded yn cael eu torri neu les anifeiliaid yn cael ei beryglu,
- cael ei roi ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd ei gweld (a gedwir ac a gynhelir gan y corff trwyddedu) i sicrhau'r cyhoedd bod y bobl sy'n cynnig gwasanaeth penodol yn cael eu trwyddedu'n briodol.

Rhagwelir y bydd unrhyw ofynion trwyddedu newydd yn cael eu cyflwyno drwy ychwanegu at Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu

Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021, neu'r Rheoliadau LAIA fel y byddwn yn cyfeirio atynt yma. Y rheoliadau hyn sy'n rheoli gwerthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes, gan gynnwys gwahardd gwerthu cŵn a chathod bach trwy drydydd parti. Os oes trefn drwyddedu eisoes yn bod, ond y bernir ei bod yn hen, yn anhyblyg neu'n annigonol i ateb gofynion heddiw, rhagwelir y caiff y ddeddfwriaeth dan sylw ei diddymu ac y daw'r drefn o dan y Rheoliadau LAIA fel rhan o'r Model Cenedlaethol.

**Yr Amserlen**

Ein huchelgais hirdymor yw bod pob anifail yng Nghymru yn byw bywyd da.

Ein gobaith yw y bydd datblygu Model Cenedlaethol ar gyfer rheoleiddio sefydliadau lles, gweithgareddau ac arddangosfeydd anifeiliaid yn sicrhau ein bod yn symud tuag at gyflawni'r nod hwn.

Mae'r gweithgareddau sydd i'w hystyried yn yr ymgynghoriad hwn yn amrywiol ac yn eang; o ran yr anifeiliaid y maent yn ymdrin â nhw, nifer y sefydliadau yr effeithir arnynt, a'r meysydd gweithgarwch a gwmpesir (therapiwtig, adloniant, masnachol ac ati)

Mae diweddaru neu greu deddfwriaeth newydd yn ddrud ar adnoddau. Er ein bod yn deall bod yr holl weithgareddau sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn yn bwysig, mae angen cryn amser i ddiweddaru deddfwriaeth.

Felly, rydym yn rhagweld y byddwn yn cyflwyno cynlluniau trwyddedu newydd / yn newid y rhai sydd eisoes yn bod, yn raddol.

Dyma rai o'r ffactorau all effeithio ar y drefn blaenoriaethau wrth ei chyflwyno fesul fam:

- Nifer yr anifeiliaid yr effeithir arnyn nhw neu yr ymwneir â nhw
- Nifer y sefydliadau / mentrau sy'n weithredol
- Cymhlethdod y fenter o ran adnoddau, arbenigedd ac ati a faint o risg sy'n gysylltiedig â hynny
- Nerth pryder y cyhoedd / sector / arbenigwyr
- Y dystiolaeth a gyflwynir
- A yw eisoes yn cael ei reoleiddio?

Fel enghraifft o astudiaeth achos, nid yw canolfannau achub anifeiliaid yn cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd. Mae llawer ohonynt yng Nghymru,

yn trin miloedd o anifeiliaid. Maent yn sefydliadau cymhleth o ran arbenigedd, staffio, cyfleusterau, ariannu a gofal milfeddygol, a gall hynny arwain at beryglu anghenion lles yr anifeiliaid o dan eu gofal. Rydym yn rhagweld felly y byddwn yn rhoi blaenoriaeth i drwyddedu canolfannau achub.

## Adran 4 – Tabl Trosolwg

Ar hyn o bryd nid yw'r gweithgareddau sy'n cael eu trafod yn yr ymgynghoriad hwn yn cael eu rheoleiddio yng Nghymru neu mae'r rheoleiddio hwnnw'n ysgafn. Y rheswm dros gyflwyno cynllun trwyddedu statudol safonol (Model Cenedlaethol) yw gwella a diogelu lles anifeiliaid a gosod safonau gofynnol y bydd yn rhaid i bawb sydd â thrwydded gadw atyn nhw.

| Categori | Diffiniad | Enghreifftiau o weithgareddau |
|---|---|---|
| Sefydliad Lles Anifeiliaid | Sefydliad lles anifeiliaid yw person neu sefydliad sy'n derbyn anifeiliaid agored i niwed yn rheolaidd, boed yn anifeiliaid anwes, anifeiliaid fferm, anifeiliaid gwyllt, anifeiliaid a warchodir neu anifeiliaid eraill, gyda'r nod o'u hadsefydlu a naill ai eu hailgartrefu neu eu rhyddhau (yn ôl i'r gwyllt), neu ddarparu gofal hirdymor. | • Canolfannau achub anifeiliaid<br>• Llochesi anifeiliaid<br>• Canolfannau adsefydlu fel ysbytai draenogod<br>• Canolfannau ailgartrefu |
| Gweithgareddau sy'n ymwneud ag anifeiliaid | Mae gweithgareddau sy'n ymwneud ag anifeiliaid yn eang ac amrywiol. O'r herwydd nid oes diffiniad sy'n cwmpasu'r holl bosibiliadau. | • Ymddygiadwyr anifeiliaid<br>• Hyfforddwyr anifeiliaid<br>• Llety cathod<br>• Llety cŵn<br>• Parciau chwarae i gŵn<br>• Cerddwyr cŵn<br>• Gofal dydd i gŵn<br>• Llogi ceffylau<br>• Maethu<br>• Lletya gartref (gan gynnwys systemau masnachfraint o |

| Categori | Diffiniad | Enghreifftiau o weithgareddau |
|---|---|---|
| | | ofalu am anifeiliaid anwes)<br>• Gwasanaethau cwrdd ag anifeiliaid (gan gynnwys therapi anifeiliaid, caffis anifeiliaid, ioga cŵn bach, mynd â lamas ac ati am dro)<br>• Hurio stablau<br>• Gwarchod anifeiliaid anwes<br>• Gwersi cymdeithasu, ufudd-dod neu hyfforddiant |
| Arddangosfeydd Anifeiliaid | Unigolion, grwpiau, elusennau neu fentrau masnachol sy'n<br>a) arddangos anifeiliaid i ddiddanu, codi arian, addysgu, therapi a/neu ddibenion eraill, a<br>b) cadw neu hyfforddi anifeiliaid at y dibenion hyn.<br>Gallai'r arddangosfa fod ar gyfer:<br>• unrhyw gynulleidfa sy'n bresennol, neu<br>• drwy recordio delweddau gweledol ohonynt drwy unrhyw ddull technolegol sy'n galluogi arddangos y delweddau hynny | • Anifeiliaid ar gyfer partïon plant<br>• Mynd ag anifeiliaid i ysgolion at ddibenion addysgol<br>• Arddangosfeydd heboga<br>• Ceirw mewn digwyddiadau Nadolig<br>• Heboga teithiol<br>• Canolfannau adar ysglyfaethus |

| Categori | Diffiniad | Enghreifftiau o weithgareddau |
|---|---|---|
| | Nid yw'r gweithgareddau a ddisgrifir uchod yn cynnwys gweithgareddau a ganiateir o dan drwydded sw o dan Ddeddf Trwyddedu Sŵau 1981. | |
| Perchnogion a/neu Ceidwaid neu Hyfforddwyr cŵn rasio (gan gynnwys milgwn) | Perchnogion a/neu geidwaid neu hyfforddwyr cŵn y bwriedir iddynt gymryd rhan mewn rasio masnachol. | • Rasio dachshunds<br>• Rasio milgwn<br>• Rasio daeargwn |
| Rasio milgwn | Camp lle mae milgwn yn rasio o amgylch trac cylch neu hirgrwn gan gwrso ysgyfarnog ffug symudol gyda'r gwylwyr yn betio ar y canlyniad. | Ar hyn o bryd, un trac rasio milgwn sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru o dan Fwrdd Milgwn Prydain Fawr (GBGB) |

# Adran 5 - Mwy am y cwestiynau y byddwn yn eu gofyn

### Cwestiwn 1

Mae cwestiwn 1 yn gofyn i chi ystyried a ddylai Sefydliadau Lles Anifeiliaid gael eu trwyddedu. Os ydych chi'n credu y dylid, byddwn am i chi nodi'ch rhesymau yn y blwch a ddarperir.

**Sefydliadau Anifeiliaid**

**Llochesi a Chanolfannau Ailgartrefu ac Achub**

Nid yw llochesi na chanolfannau ailgartrefu ac achub yn cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd yng Nghymru. Rydym yn amcangyfrif bod tua 80 ohonynt yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae'n amhosib rhoi rhif pendant am nad yw'r maes yn cael ei reoleiddio a chan fod y canolfannau'n amrywio o ran eu hamlygrwydd a'u gwaith - er enghraifft, a oes gan y lloches wefan, a yw'n elusen gofrestredig, a yw'n cael ei rhedeg gan unigolyn yn ei gartref ac ati. Er enghraifft, gall fod yn unigolyn sydd newydd benderfynu cymryd draenogod i'w gwella yn ei ystafell wely sbâr neu gall fod yn elusen adnabyddus a hen gyda dogfennau llywodraethu ffurfiol, statws elusennol, a phroffil cyhoeddus.

Yn y categori hwn mae safleoedd sefydliadau Prydeinig adnabyddus fel yr RSPCA, Dogs Trust a Cats Protection, yn ogystal â chanolfannau elusennol llai a phobl annibynnol. Gallai gweithgareddau ailgartrefu olygu sefydliadau neu unigolion sy'n gweithredu heb safle i gadw anifeiliaid, megis mudiadau sy'n ailgartrefu cŵn o ganolfannau achub mewn gwledydd eraill.

Gall y mudiadau hyn weithio gydag un rhywogaeth neu fwy nag un rhywogaeth, neu efallai gyda phob math o anifail anwes neu i un grŵp ohonynt, fel llochesi asynnod ac ysbytai draenogod. Er y gall llochesi ganiatáu ymwelwyr neu gynnal diwrnodau agored, mae'r anifeiliaid fel arfer yn aros yn barhaol ar y safle.

Er bod y rhan fwyaf yn cael eu rhedeg gan unigolion neu sefydliadau sydd am roi o'u gorau i'r anifeiliaid, gall rheoli'r sefydliadau hyn fod yn waith cymhleth. Er mwyn sicrhau'r safonau lles uchaf, mae angen, ymhlith pethau eraill, cyllid parhaus, arbenigedd ar sut i ofalu am iechyd a lles yr anifeiliaid, gwasanaethau milfeddygol a llety digonol

Mae rhai o'n pryderon yn cynnwys:

- Safleoedd neu lety anaddas o ystyried nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu lletya.
- Diffyg staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i ddiwallu anghenion anifeiliaid.
- Weithiau nid yw'r anifeiliaid yn cael eu 'priodi' â'r perchenogion gorau, a'u bod felly yn gorfod cael eu dychwelyd neu eu hailgartrefu neu'n cael eu gadael.
- Canolfannau ailgartrefu yn cael eu rhedeg fel siopau anifeiliaid anwes, gan osgoi'r angen am drwydded o dan y ddeddfwriaeth bresennol.

- Gall rhai anifeiliaid sy'n cael eu mewnforio, yn gyfreithiol neu'n anghyfreithlon, ar gyfer eu hailgartrefu fod yn cario clefydau nad ydynt fel arfer i'w cael yn y DU.
- Heb bolisïau a threfniadau llym, gall sefydliadau gael eu llethu a bod heb ddigon o adnoddau (arian, staff, cyfleusterau, arbenigedd milfeddygol) i ymdopi â'r anifeiliaid sy'n cael eu rhoi iddyn nhw.
- Mae'r argyfwng costau byw wedi gwaethygu problemau, gyda straen ychwanegol ar adnoddau a mwy o achosion o adael anifeiliaid ac o'u rhoi'n wirfoddol.

Byddai system drwyddedu yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gwrdd â'r safonau gofynnol a llunio cynlluniau busnes da, sicrhau ffrydiau adnoddau digonol a rheoli risg. Byddai archwiliadau rheolaidd yn sicrhau bod safonau'n cael eu cadw a bod problemau'n cael eu nodi, cyngor yn cael ei roi a chynnydd yn cael ei fonitro.

Y nod yw rheoleiddio'r maes hwn i ddiogelu lles anifeiliaid mewn ffordd nad yw'n rhoi gormod o faich ar y rheini sy'n gwneud gwaith da ar hyn o bryd, tra'n delio'n effeithiol ag achosion lle na sicrheir lles yr anifeiliaid ddigon neu lle ceir unigolion diegwyddor sy'n gwneud elw y tu ôl i len elusen.

Yn ogystal â'r cyfleusterau a'r staff a'r gwirfoddolwyr yn eu canolfannau gofal ac ailgartrefu, mae nifer o'r mudiadau achub ac ailgartrefu yn dibynnu hefyd ar unigolion allanol i "faethu" anifeiliaid yn eu cartrefi eu hunain dros dro, nes y ceir hyd i gartref newydd parhaol. Gall hyn fod yn ychwanegol at unedau llety cŵn a chathod traddodiadol neu gall fod yr unig ffordd y mae’r sefydliad yn trefnu i gartrefu a gofalu am yr anifeiliaid. Mae angen gofal i sicrhau bod safon y gofal a ddarperir mewn cartref maeth yn foddhaol ac yn unol â gofynion trwyddedu'r fam-sefydliad.

**Cwestiwn 2**

<u>Mae cwestiwn 2 yn gofyn i chi ystyried a ddylai Gweithgareddau sy'n ymwneud ag Anifeiliaid gael eu trwyddedu.  Os ydych chi'n credu y dylid, byddwn am i chi nodi'ch rhesymau yn y blwch a ddarperir.</u>

**Gweithgareddau sy'n ymwneud ag anifeiliaid**

**Cyfleusterau gofal i anifeiliaid anwes, gofal dydd i anifeiliaid anwes, gwarchod anifeiliaid anwes, cerdded cŵn, lletya gartref, parciau chwarae i anifeiliaid anwes, twtio anifeiliaid anwes ac ati**

Mae cynnydd mawr wedi bod yn ddiweddar yn y nifer sy'n berchen ar anifeiliaid anwes. Fel ymateb i hynny, mae llawer o weithgareddau, busnesau a mentrau sy'n ymdrin ag anifeiliaid wedi'u sefydlu i gwrdd ag anghenion perchnogion. Yr arfer yn y gorffennol oedd i berchenogion ddefnyddio llety cŵn a chathod pan fydden nhw'n mynd ar wyliau, ond erbyn hyn, mae llety o'r fath a mentrau mwy newydd sy'n gofalu ac yn gwarchod anifeiliaid anwes yn y cartref ac yn cerdded cŵn, yn cael eu defnyddio'n aml bellach pan fydd perchnogion yn y gwaith.  Ond mae anghysonder yn y ffordd y mae Awdurdodau Lleol yn dehongli gofynion trwyddedu presennol Deddf Sefydliadau Lletya Anifeiliaid 1963. Ar gyfer y safleoedd hynny nad ydynt wedi'u trwyddedu, mae'n amhosib dweud a oes ganddynt ddigon o gyfleusterau neu

wybodaeth i allu gofalu am les yr anifeiliaid anwes sydd yn eu gofal.  Yn anffodus, weithiau dim ond pan aiff rhywbeth o'i le y daw problemau i'r amlwg.  Nid yw'r rheoliadau presennol yn delio â'r mentrau newydd hyn ac mae angen eu diweddaru i sicrhau bod deddfwriaeth briodol yn bod i ddelio ag unrhyw fusnes sy'n gofalu am anifeiliaid anwes.

Wrth drwyddedu gwarchodwyr anifeiliaid anwes, ni fwriedir i'r drwydded gwmpasu trefniadau anffurfiol fel perthynas sy'n gofalu am anifail pan fydd y perchennog ar wyliau ac ati.

**Stablau Hurio**

Ar hyn o bryd, nid yw stablau hurio'n cael eu rheoleiddio yng Nghymru. Nid oes angen cymhwyster na thrwydded i redeg na bod yn berchen ar fusnes hurio stablau. Mae diffyg rheoleiddio a safonau gofynnol i ddiogelu lles anifeiliaid a sicrhau atebolrwydd yn fater o bryder.

**Sesiynau cwrdd ag anifail (gan gynnwys therapi anifeiliaid anwes)**

Gall sesiwn cwrdd â phobl gynnwys ymweliadau lles neu therapi gan anifeiliaid anwes â lleoedd fel cartrefi gofal, ysbytai, cyfleusterau iechyd meddwl, ysgolion, prifysgolion a lleoliadau domestig. Mae'r gweithgareddau hyn yn cael eu hysbysebu'n aml fel rhai sy'n rhoi hwb i lesiant, yn lleddfu stres, yn annog adsefydlu neu'n helpu defnyddwyr gwasanaethau i ymdawelu.

Mae nifer o sefydliadau neu elusennau sy'n cynnig therapi anifeiliaid anwes yn ofalus iawn ag iechyd a lles eu hanifeiliaid therapi ac mae ganddynt bolisïau a threfniadau cadarn i sicrhau hynny.  Fodd bynnag, ceir tystiolaeth bod yna unigolion sy'n dod â'u hanifeiliaid anwes yn rheolaidd i gynnig sesiynau therapi mewn leoliad lle ceir oedolion a phlant bregus ond nad oes gweithdrefnau yn eu lle yno ac nad oes asesiadau risg wedi'u cynnal na hyfforddiant yn cael ei gynnig.  Er y gall yr anifeiliaid hyn fod yn ddigon cyfeillgar eu natur a'u bod yn gyfarwydd ag amgylchedd y teulu, weithiau gall dod â nhw i sefyllfa ddieithr beri gofid iddynt, yn enwedig pan fydd llawer o bobl am eu hanwylo yr un pryd.  Byddai cynllun trwyddedu yn sicrhau bod gan unrhyw un sydd am gynnig y gwasanaeth hwn y gweithdrefnau, yr yswiriant a'r hyfforddiant cywir, nid yn unig i sicrhau lles yr anifail ond lles yr unigolion yr ymwelir â nhw hefyd.

Mae mynd ag alpacas a lamas am dro wedi dod yn boblogaidd iawn yn y blynyddoedd diwethaf.  Mae'r anifeiliaid hyn yn gallu bod yn agored i glefydau a phroblemau iechyd eraill ac mae angen gofal penodol arnynt. Byddai trwyddedu busnesau cerdded alpacas yn sicrhau ac yn cynnal hwsmonaeth dda i gadw'r anifeiliaid yn iach a sicrhau bod eu hanghenion lles yn cael eu diwallu.

Mae ioga cŵn bach yn enghraifft arall lle mae anifail anwes yn cael ei ddefnyddio i gyfoethogi profiad pobl.  Mynegwyd pryder yn dilyn nifer o adroddiadau am gŵn bach mewn gweithdai ioga yn cael eu eu cam-drin ac â'u hanghenion yn cael eu diystyru e.e. ddim yn cael cyfle i gysgu digon yn ystod y dydd, eu gorgynhyrfu a diffyg sylw i'w hanghenion toiled ac ati.

Mae caffis ar thema anifeiliaid (parhaol a 'pop-up') yn fusnesau sydd fel arfer yn cynnig cyfle i ryngweithio'n fyw ag anifeiliaid ar eu safle, fel caffis cathod, am dâl. Ceir pryder bod anghenion yr anifeiliaid yn eilbeth i bleser y cwsmer, a gall amgylcheddau o'r fath orgynhyrfu'r anifail a thorri ar draws ei arferion cysgu naturiol, ymhlith pethau eraill. Byddai cyflwyno system drwyddedu yn rhoi blaenoriaeth i anghenion lles yr anifeiliaid ac yn sicrhau bod yr anghenion hynny'n cael eu deall.

**Cwestiwn 3**

Mae cwestiwn 3 yn gofyn i chi ystyried a ddylid cyflwyno cynllun trwyddedu i gryfhau'r ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer arddangosfeydd teithiol a sefydlog o anifeiliaid, mewn fformat blwch ticio 'ydw / nac ydw / ddim yn gwybod'. Os ydych chi'n credu y dylid, byddwn am i chi nodi'ch rhesymau yn y blwch a ddarperir.

Mae Arddangosfeydd Anifeiliaid (AAau) yn amrywio'n fawr ac ar hyn o bryd nid oes unrhyw drefn drwyddedu safonol na gofyn i'w harchwilio'n rheolaidd. Mae'n bosib bod rhai wedi'u cofrestru o dan Ddeddf Anifeiliaid Perfformio (Rheoleiddio) 1925, ond gweithred untro yw cofrestru o dan y Ddeddf honno ac nid oes gofyniad gorfodol i'w harchwilio. Pryderir felly na ellir gwarantu safonau lles ac nad yw safonau llawer o arddangosfeydd anifeiliaid yng Nghymru'n cael eu hasesu'n rheolaidd.

Gall anifeiliaid gael eu cludo dros bellter mawr, eu cadw mewn amgylchedd anaddas a'u cyflwyno i sefyllfaoedd anghyfarwydd neu annaturiol, a gallai'r gofal a roddir iddynt aberthu eu lles er mwyn hwyluso eu harddangos. Mewn arddangosfeydd sefydlog a theithiol, weithiau mae aelodau o'r cyhoedd sydd heb eu hyfforddi'n cael trin yr anifeiliaid, gan eu gorgynhyrfu a gwneud iddynt deimlo stres.

Er bod Deddf Lles Anifeiliaid 2006 yn rhoi pŵer i awdurdodau weithredu lle ceir pryderon am les anifeiliaid, byddai awdurdod lleol neu orfodwr arall ddim fel arfer yn ymweld ag AA sydd heb ei reoleiddio oni bai bod cwyn am les anifail wedi'i wneud. Lle cedwir anifeiliaid mewn annedd domestig a'u bod ond yn cael eu gweld gan y cyhoedd fel rhan o AA am gyfnodau byr o amser, fel sy'n digwydd yn enwedig gydag AAau teithiol, mae'n bosib na chaiff y gorfodwr wybod byth am unrhyw bryderon lles.

Dyma enghreifftiau o arddangosfeydd anifeiliaid, ond nid yw hon yn rhestr lawn:

- Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid - Arddangosfa sy'n teithio o le i le i arddangos anifeiliaid (cwningod anwes, ymlusgiaid ac ati) er enghraifft, mewn ysgolion, priodasau, partïon preifat, ffeiriau a digwyddiadau eraill lle mae cynulleidfa'n bresennol. Bydd rhai yn dod yn ôl i'r un lle bob nos; Bydd rhai eraill yn dod yn ôl i le dros dro.
- Arddangosfeydd Sefydlog o Anifeiliaid – fel sŵau anwes, arddangosfeydd neu ganolfannau adar ysglyfaethus. Yn cynnwys, canolfannau parhaol neu arddangosfeydd teithiol o adar sy'n cael eu dangos ar glwydi neu ar fenig, yn ogystal ag arddangosfeydd hedfan.
- Anifeiliaid sy'n cael eu cadw neu eu hyfforddi i'w defnyddio mewn cynyrchiadau teledu, ffilm neu theatr.
- Anifeiliaid sy'n cael eu harddangos at ddibenion addysgol neu adloniant, fel mewn ysgolion neu bartïon.

Byddai cynllun trwyddedu yn creu fframwaith ar gyfer cynnal archwiliadau, yn ogystal â chyflwyno amodau gofynnol y bydd Awdurdodau Lleol yn gallu eu defnyddio i asesu safonau iechyd a lles anifeiliaid. Nid ydym yn rhagweld y caiff sioeau sioeau cŵn, cathod neu hobi eraill eu cynnwys o dan y drefn drwyddedu hon.

**Cwestiwn 4**

Mae cwestiwn 4 yn gofyn i chi ystyried a ddylid trwyddedu perchnogion a/neu geidwaid neu hyfforddwyr cŵn rasio (gan gynnwys milgwn), mewn fformat blwch ticio 'dylid / na ddylid / ddim yn gwybod'.

Fel pob anifail arall, mae cŵn rasio (gan gynnwys milgwn) yn cael eu diogelu ar hyn o bryd gan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006.

At ddibenion y rhan hon o'r ymgynghoriad, rydym yn ystyried y posibilrwydd o drwyddedu perchenogion a/neu geidwaid neu hyfforddwyr cŵn rasio (gan gynnwys milgwn) gyda'r bwriad o wella lles y rheini sy'n cael eu bridio neu eu magu'n benodol ar gyfer eu rasio, gydol eu hoes (o'u geni hyd at pan fyddant yn ymddeol).

Nid oes cynllun trwyddedu ar hyn o bryd, felly nid yw cŵn sy'n cael eu hyfforddi a'u cadw ar gyfer eu rasio yn cael eu harchwilio yn eu safleoedd byw na hyfforddi.

Rydym yn rhagweld y byddai trefn drwyddedu cŵn rasio yn cynnwys ymweliadau rheolaidd gan yr awdurdod trwyddedu i sicrhau bod anghenion lles y ci yn cael eu diwallu bob amser.

Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn holi am drwyddedu lleoedd (stadiymau) lle cynhelir rasys.

**Cwestiwn 5**

Mae cwestiwn 5 yn gofyn i chi gyflwyno tystiolaeth i gyfiawnhau neu wrthod ystyried gwaharddiad graddol ar rasio milgwn yn y dyfodol. Gofynnwn i chi dicio'r blwch sy'n adlewyrchu'ch barn chi orau ynghylch a ddylid ystyried gwaharddiad graddol. Yna byddwn yn gofyn i chi nodi'ch rhesymau yn y blwch testun.

Rydym yn deall bod gan y cyhoedd ddiddordeb mawr yn lles milgwn rasio. Cafodd deiseb yn 2022 yn galw am wahardd rasio milgwn yng Nghymru dros 35,000 o lofnodion. Yn dilyn cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Deisebau, cynhaliwyd trafodaeth ar 8 Mawrth 2023. Mae ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar gael yma.

Dim ond un trac rasio milgwn sydd yng Nghymru, y Valley Greyhound Stadium. Mae'r trac wedi'i drwyddedu gan Fwrdd Milgwn Prydain Fawr (GBGB). Nid yw hyn yr un peth â thrwydded gan y Llywodraeth. O dan y trefniant hwn, corff y diwydiant, sef GBGB, sy'n pennu'r safonau y mae'n rhaid i'r stadiwm gadw atyn nhw i gael bod yn

aelod. Mae GBGB yn archwilio'r trac i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r safonau. Mae'r trac wedi bod yn aelod o GBGB ers mis Awst 2023.

Ynghyd â'r cwestiwn a ddylid trwyddedu perchnogion, ceidwaid neu hyfforddwyr cŵn rasio, mae'r ymgynghoriad yn gofyn hefyd am dystiolaeth i gyfiawnhau neu wrthod ystyried gwaharddiad graddol yn y dyfodol.

O ran y gweithgaredd o rasio cŵn, mae camau y gellir eu hystyried i wella eu lles ar y trac. Gallai'r camau hynny gynnwys aelodaeth o gymdeithas rasio neu fynnu bod milfeddyg yn y trac ar gyfer pob ras. Mae opsiynau eraill a allai gyfyngu ar y rasio ei hun, megis uchafswm o ddigwyddiadau mewn blwyddyn neu, os oedd tystiolaeth i'w gefnogi, cyflwyno gwaharddiad graddol ar rasio milgwn dros gyfnod penodol o amser.

Rydym yn cynnig proses ailadroddus, neu gam wrth gam, o ran rasio milgwn, lle bydd newidiadau'n cael eu hadolygu cyn cymryd y cam nesaf i weld a yw'r newidiadau wedi arwain at welliant.

Rydym yn cydnabod bod hwn yn bwnc emosiynol. Wrth ystyried ymatebion, bydd angen i ni hefyd ystyried canlyniadau posibl pob ymyrraeth.

Gofynnwn i ymatebwyr ystyried yr ystod hon o ymyriadau, a sut y gallem adolygu pob cam. Rydym yn cydnabod y gallai trwyddedu tynnach arwain at wella lles cŵn heb atal rasio cŵn. Ar y llaw arall, gall gwaharddiad graddol ddod â rasio rheoledig i ben ac arwain at gynnydd mewn digwyddiadau anghyfreithlon.

**Cwestiwn 6**

Mae cwestiwn 6 yn gofyn ichi am eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion hyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae hwn yn gwestiwn gorfodol a gynhwysir ym mhob un o ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru

**Cwestiwn 7**

Mae cwestiwn 7 yn ymwneud â chwestiwn 6 ac yn gofyn am eich barn ynghylch sut y gallai unrhyw newidiadau gael eu ffurfio fel eu bod yn cael effaith gadarnhaol, neu fwy o effaith gadarnhaol, ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae hwn yn gwestiwn gorfodol a gynhwysir ym mhob un o ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru

**Cwestiwn 8**

Mae Cwestiwn 8 yn cyfeirio at yr holl weithgareddau yr ydym wedi'u trafod yn yr ymgynghoriad hwn ac yn rhoi cyfle i chi nodi unrhyw sylwadau pellach a allai fod gennych ar y materion dan sylw.

Mae'r cwestiwn hwn yn un dewisol ac efallai y gwelwch fod eich atebion i'r cwestiynau blaenorol wedi ymdrin â'r cyfan yr hoffech ei ddweud. Os na, gallech ddefnyddio'r blwch hwn i:

- Ymhelaethu ar eich atebion blaenorol i roi mwy o fanylion am faterion penodol
- Cynnig gweithgareddau / sefydliadau / arddangosfeydd yn ogystal â'r rheini sydd wedi'u rhestru

Er mwyn prosesu'ch cyflwyniad yn effeithiol a gwneud y defnydd gorau o'r dystiolaeth neu'r wybodaeth rydych wedi'i rhoi, gofynnwn i chi roi ateb clir a chryno i'r cwestiwn hwn sy'n berthnasol i bwnc yr ymgynghoriad. Os hoffech ymhelaethu ar gwestiwn blaenorol, gofynnwn i chi gyfeirio'n glir at rif y cwestiwn y cyfeirir ato neu nodi'r pwnc y mae eich cyflwyniad yn ymwneud ag ef. Rydym yn eich annog i ddefnyddio pwyntiau bwled, paragraffau neu benawdau yn eich ymateb.

**Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

Enw:

E-bost / Rhif ffôn:

Y wlad rydych yn byw ynddi:

Ticiwch yn ôl y gofyn:

- Sefydliad/Busnes Preifat ☐
- Elusen ☐
- Aelod o'r Cyhoedd ☐
- Llywodraeth Leol ☐
- Eraill ☐

Fel arfer, bydd ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch y blwch. ☐

**Cwestiwn 1**

A ydych yn cytuno y dylai Sefydliadau Lles Anifeiliaid (llochesi anifeiliaid a chanolfannau achub ac adsefydlu anifeiliaid) gael eu trwyddedu?

Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn gwybod ☐

Os 'Ydw' oedd eich ateb i gwestiwn 1, rhowch eich rhesymau yn y blwch isod:

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 2**

Ydych chi'n cytuno y dylai gweithgareddau anifeiliaid (sesiynau cwrdd â phobl, gofal dydd i gŵn, cerdded cŵn, lletya gartref, hurio stablau ac ati) gael eu trwyddedu?

Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn gwybod ☐

Os 'Ydw' oedd eich ateb i gwestiwn 2, rhowch eich rhesymau yn y blwch isod:

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 3**

A ydych yn cytuno y dylid cyflwyno cynllun trwyddedu i gryfhau'r ddeddfwriaeth bresennol o ran arddangos anifeiliaid h.y. mynd ag anifeiliaid fel ymlusgiaid i bartïon, canolfannau adar ysglyfaethus neu arddangosfeydd teithiol a sefydlog eraill?

Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn gwybod ☐

Os 'Ydw' oedd eich ateb i gwestiwn 3, rhowch eich rhesymau yn y blwch isod:

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 4**

A ydych yn cytuno y dylai perchnogion a/neu geidwaid neu hyfforddwyr cŵn rasio (gan gynnwys milgwn) gael eu trwyddedu?

Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn gwybod ☐

Os 'Ydw' oedd eich ateb i gwestiwn 4, rhowch eich rhesymau yn y blwch

| |
|---|
| |

isod:

**Cwestiwn 5**

Rydym yn deall bod gan y cyhoedd ddiddordeb mawr yn lles milgwn rasio. Yn ychwanegol at y cwestiwn uchod ar drwyddedu perchnogion, ceidwaid, neu hyfforddwyr cŵn rasio, rydym yn gofyn am dystiolaeth i gyfiawnhau neu wrthod ystyried gwaharddiad graddol yn y dyfodol.

Ticiwch y blwch sy'n adlewyrchu'ch barn orau ynghylch a ddylid ystyried gwaharddiad graddol.

O blaid gwaharddiad graddol ☐ Yn erbyn gwaharddiad graddol ☐

Heb benderfynu ☐

Rhowch eich cyflwyniad a'ch rhesymau yn y blwch isod a nodwch a yw eich cyflwyniad ***o blaid*** neu ***yn erbyn*** ystyried gwaharddiad graddol yn y dyfodol:

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 6**

Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai unrhyw rai o'r newidiadau hyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 7**

Esboniwch hefyd sut y gellid ffurfio neu newid y newidiadau hyn mewn modd a fyddai'n cael effaith gadarnhaol, neu fwy o effaith gadarnhaol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac o ran sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor ffafriol â Saesneg.

**Cwestiwn 8**

Rydym wedi amlinellu'r materion yr ydym yn eu hystyried o ran trwyddedu sefydliadau, gweithgareddau ac arddangosfeydd anifeiliaid ac ystyried rheoleiddio rasio cŵn yn y dyfodol ac rydym wedi gofyn i chi roi atebion penodol i'n cwestiynau uchod.  Os oes gennych unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud am y materion hyn, nodwch nhw yn y blwch testun isod: